

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

### Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) atodol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw. Ystyrir hefyd a yw unrhyw ddarpariaethau yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cafodd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol ("y Bil") ei gyflwyno i Senedd y DU, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022. Gellir gweld y Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3339>
3. Gosodwyd LCM ar 29 Tachwedd. Ar yr un diwrnod ysgrifennais at y Llywydd yn esbonio bod yr LCM hwn wedi'i osod y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos ar gyfer RhS29, yn wreiddiol oherwydd maint a chymhlethdod y Bil ac i'n galluogi i gwblhau ein dadansoddiad o faterion datganoledig y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac yn ddiweddarach gan ei fod yn destun trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar faterion technegol o ran y Rheol Sefydlog.
4. O ganlyniad, mae'r oedi hwn wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer gosod yr LCM atodol hwn sydd felly hefyd wedi'i osod y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos ar gyfer RhS29.
5. Cyflwynwyd nifer o welliannau technegol a sylweddol i'r Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor rhwng 25 Hydref a 29 Tachwedd 2022. Mae angen caniatâd y Senedd i wneud rhai o'r gwelliannau hyn. Mae'r LCM atodol hwn (Memorandwm Rhif 2) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cymalau hyn.

### Amcanion polisi

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw atal troseddwyd cyfundrefnol, twyllwyr, cleptocraidiaid a therfysgwyr rhag defnyddio cwmnïau ac endidau corfforaethol eraill i gam-drin economi agored y DU. Bydd y Bil yn diwygio pwerau'r Cofrestrydd Cwmnïau a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer partneriaethau cyfyngedig er mwyn diogelu busnesau, defnyddwyr a diogelwch cenedlaethol y DU.
7. Nod y Bil yw cryfhau ymateb ehangach y DU i droseddau economaidd, yn enwedig drwy roi pwerau newydd i orfodi'r gyfraith i atafaelu crypto asedau

a galluogi busnesau yn y sector ariannol i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol i atal a chanfod troseddau economaidd.

8. Nod y Bil yw cefnogi mentrau drwy alluogi Tŷ'r Cwmnïau i ddarparu gwell gwasanaeth i dros bedair miliwn o gwmnïau yn y DU, a gwella dibynadwyedd ei ddata i lywio trafodion busnes a phenderfyniadau benthyg ar draws yr economi.

### **Crynodeb o'r Bil**

9. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

10. Mae prif ddarpariaethau'r Bil wedi eu rhestru yn yr LCM gwreiddiol:

### **Gwelliannau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

Mae'r gwelliannau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer wedi'u rhestru isod.

### **Cymal 142 – Cryptoasedau: adfer sifil**

#### **Darpariaeth wreiddiol**

11. Mae Cymal 142 yn darparu bod Atodlen 7 o'r Bil yn diwygio POCA i wneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn adfer sifil mewn perthynas â chryptoasedau.

12. Mae angen cydsyniad – Mae Atodlen 7 yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. At hynny, mae'r darpariaethau yn Atodlen 7 wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys yng Nghymru) drwy ymladd yn erbyn troseddau economaidd drwy wneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn adfer sifil mewn perthynas â chryptoasedau. Mae'r economi yn fater datganoledig ac felly mae'r Bil yn gwneud 'darpariaeth berthnasol' mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o ganlyniad mae angen cydsyniad yn unol â Rheol Sefydlog 29. Gan mai cymal 142 yw cymal y Bil sy'n ymgorffori Atodlen 7, mae'n dilyn bod angen cydsyniad.

#### **Gwelliannau i gymal 142**

14. Mae Gwelliant 121 yn darparu ar gyfer Atodlen 7 i'r Bil i gynnwys gwelliannau cysylltiedig. Mae'r diwygiadau pellach hyn yn cynnwys y rhai a nodir isod mewn perthynas ag Atodlen 7 i'r Bil.

15. Angen cydsyniad - nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol a, gan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen caniatâd ar gyfer y gwelliannau hyn.

## **Atodlen 7 - Cryptoasedau: adfer sifil**

*Pennod 3E – Fforffediad Crypto asedau yn dilyn gorchymyn cadw neu rewi*

### **Darpariaeth wreiddiol**

16. *Pennod 3E – Fforffedu Cryptoasedau yn dilyn gorchymyn cadw neu rewi* – Mae'r Bennod 3E newydd yn darparu y gall awdurdod barnwrol orchymyn fforffedu'r holl gryptoasedau, neu rai ohonynt, a gadwyd yn unol â gorchymyn o dan Bennod 3C, neu sydd wedi'u rhewi mewn waled o dan orchymyn a wnaed o dan Bennod 3D, os bodlonir bod y cryptoasedau yn eiddo adenilladwy neu y bwriedir eu defnyddio mewn ffordd anghyfreithlon. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwireddu neu ddinistrio cryptoasedau. Mae'r achosion a'r gorchymynion sy'n deillio o hynny yn gofyn am gynnwys 'swyddog gorfodi' a/neu 'uwch-swyddog' (gweler paragraff 15 uchod).

17. Mae angen cydsyniad – Pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu cymhwysedd gweithredol i ddisgrifio categori o bersonau fel swyddog gorfodi neu uwch-swyddog drwy orchymyn o dan adran 453 o POCA at ddibenion y Bennod hon, effaith y darpariaethau newydd hyn fydd sicrhau bod y dynodiad hwnnw yn cwmpasu mwy o ddibenion (h.y. ymglymiad â gorchymynion ar gyfer fforffedu, realeiddio a dinistrio cryptoasedau) na'r hyn y mae'r dynodiad yn ei gwmpasu ar hyn o bryd ac felly, mae cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yn cael ei addasu ac mae angen cydsyniad. At hynny, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys yng Nghymru) drwy ymladd yn erbyn troseddau economaidd. Mae'r economi yn fater datganoledig ac felly mae'r Bil yn gwneud 'darpariaeth berthnasol' mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o ganlyniad mae angen cydsyniad yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### **Diwygiadau i Atodlen 7, Pennod 3E**

18. Mae gwelliant 51 yn gwneud mân gywiriad technegol i fewnosod adran 303Z42 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002, sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am fforffedu crypto asedau.

19. Mae gwelliannau 52 a 53 yn diwygio ymhellach adran 303Z42 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i ddarparu bod gorchymyn rhewi waled crypto yn parhau i gael effaith tan ddiwedd unrhyw achos fforffedu a ddechreuwyd mewn perthynas â crypto asedau a gedwir mewn waled crypto sy'n destun gorchymyn rhewi o'r fath.

20. Mae gwelliant 54, 55 a 56 yn darparu y gellir gwneud cais o dan adran 303Z46 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (parhad o orchymyn rhewi waled crypto tra'n aros apêl) mewn amgylchiadau lle mae cais fforffedu o dan adran 303Z41 o'r Ddeddf honno yn cael ei drosglwyddo yn unol ag adran 303Z45 o'r Ddeddf honno i'w chlywed gan yr Uchel Lys neu'r Llys Sesiwn.

21. Mae Gwelliant 58 yn diwygio adran 303Z48 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i ddarparu y gall swyddog gorfodi ddinistrio crypto asedau wedi'u

fforffedu dim ond os yw'r swyddog yn uwch swyddog neu wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan uwch swyddog.

22. Mae Gwelliannau 59, 60 a 62 yn diwygio adran 303Z51 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i ddarparu na ellir rhyddhau crypto asedau o dan yr adran honno tra bod achosion fforffedu yn parhau mewn perthynas â'r crypto asedau hynny.

23. Mae gwelliant 60 yn gwneud mân gywiriad technegol i'r amod rhyddhau yn adran 303Z51(7) o Ddeddf Enillion Troseddau 2002.

Angen cydsyniad am welliannau i Atodlen 7, Pennod 3E

24. Angen cydsyniad - nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol a, gan fod y ddarpariaeth wreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

*Pennod 3F – Trosi crypto asedau*

### **Darpariaeth wreiddiol**

25. *Pennod 3F - Trosi cryptoasedau* – Mae'r Bennod 3F newydd, yn darparu ar gyfer trosi cryptoasedau a gedwir yn arian, ar gais i lys perthnasol. Gwneir darpariaeth ar gyfer dau ymgeisydd penodol: swyddog gorfodi; neu'r person yr atafaelwyd yr asedau ohonynt.

26. Mae angen cydsyniad – Pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu cymhwysedd gweithredol i ddisgrifio categori o bersonau fel swyddog gorfodi neu uwch-swyddog drwy orchymyn o dan adran 453 o POCA at ddibenion y Bennod hon, effaith y darpariaethau newydd hyn fydd sicrhau bod y dynodiad hwnnw yn cwmpasu mwy o ddibenion (h.y. gwneud cais i drosi cryptoased a gedwir yn arian) na'r hyn y mae'r dynodiad yn ei gwmpasu ar hyn o bryd ac felly, mae cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru wedi'i addasu ac mae angen cydsyniad. At hynny, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys yng Nghymru) drwy ymladd yn erbyn troseddau economaidd. Mae'r economi yn fater datganoledig ac felly mae'r Bil yn gwneud 'darpariaeth berthnasol' mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o ganlyniad mae angen cydsyniad yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### **Diwygiadau i Atodlen 7, Pennod 3F**

27. Mae Gwelliant 63 yn diwygio adran 303Z63 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (crypto asedau wedi'u trosi: dioddefwyr a pherchnogion eraill) i ddarparu bod yr amod yn is-adran (5)(a) o'r adran honno yn cael ei fodloni lle cafodd yr ymgeisydd ei amddifadu o grypto asedau neu o eiddo y mae'r crypto asedau hynny'n ei gynrychioli.

28. Mae Gwelliant 64 yn diwygio'r amod rhyddhau yn adran 303Z63(8) o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (crypto asedau wedi'u trosi: dioddefwyr a pherchnogion eraill) i ddarparu bod yr amod rhyddhau yn cael ei fodloni lle

mae'r llys yn fodlon nad yw'r amodau ym Mhennod 3F o Ran 5 o'r Ddeddf honno ar gyfer cadw'r crypto asedau wedi'u trosi yn cael eu bodloni mwyach.

Angen cydsyniad ar gyfer gwelliannau i Bennod 3F

29. Angen cydsyniad - nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol a, gan fod y ddarpariaeth wreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

*Rhan 2 o Atodlen 7 - Gwelliannau canlyniadol a gwelliannau eraill Deddf Enillion Troseddau 2002*

### **Darpariaeth wreiddiol**

30. Rhan 2 – mae'r rhan hon o Atodlen 7 yn gwneud diwygiadau canlyniadol a diwygiadau eraill i POCA i adlewyrchu bod y Penodau 3C i 3F newydd wedi'u mewnosod yn POCA fel y crynhoir uchod.

31. Mae angen cydsyniad – oherwydd y cysylltiad cynhenid â Phenodau 3C i 3F (gweler y dadansoddiad uchod) mae'r cymalau hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru ac mae angen cydsyniad. At hynny, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys yng Nghymru) drwy ymladd yn erbyn troseddau economaidd. Mae'r economi yn fater datganoledig ac felly mae'r Bil yn gwneud 'darpariaeth berthnasol' mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac o ganlyniad mae angen cydsyniad yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### **Gwelliannau i Ran 2 o Atodlen 7**

32. Mae Gwelliannau 65, 66 a 67 yn diwygio adran 303Z17A o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i ddarparu na ellir rhyddhau arian o dan yr adran honno tra bod achosion fforffedu yn parhau mewn perthynas â'r arian, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrydd ddyrannu rhif adnabod unigryw ar dderbyn hysbysiad bod person yn dod yn gyfarwyddwr, ac yn gosod terfyn ar nifer y cyfeirlyfrau a gedwir.

33. Mae gwelliant 156 yn mewnosod nifer o ddiwygiadau canlyniadol i Rannau 1 i 4 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 mewn perthynas ag adferiad sifil crypto asedau fel y mae angen y diwygiadau eraill a wnaed i'r Bil. Mae'r gwelliannau yn dechnegol eu natur.

34. Mae gwelliant 157 yn cynnwys gwelliant canlyniadol i adran 278 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 mewn perthynas â crypto asedau wedi eu fforffedu.

35. Mae gwelliannau 158-161 yn ychwanegu diwygiadau canlyniadol pellach i Ran 8 o POCA i adlewyrchu mewnosod Pennod 3C newydd i 3F yn POCA.

Angen cydsyniad i welliannau i Ran 2 o Atodlen 7

36. Angen cydsyniad - nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol a, gan fod y ddarpariaeth wreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y diwygiadau hyn.

### **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

37. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai'r mesurau yn fersiwn wreiddiol y Bil sy'n sbarduno'r broses o geisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chryptoasedau yn Rhan 4 o'r Bil. Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â chymalau 141 a 142 o'r Bil (ac felly, Atodlenni 6 a 7 o'r Bil). Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y diwygiadau hyn i POCA yn sbarduno proses cynnig cydsyniad deddfwriaethol oherwydd eu bod yn effeithio ar un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o ymchwilydd ariannol achrededig sy'n gallu arfer rhai o'r pwerau newydd hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r LCM gwreiddiol.

38. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mewn gohebiaeth eu bod 'ddim o'r farn bod y gwelliannau hyn yn cynnwys y broses Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd'. Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi manylion eu dadansoddiad ac felly nid yw'n glir sut y daethpwyd i'r casgliad hwn. Nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd ar gyfer fersiwn wreiddiol y Bil (y mae, yn unol â pharagraff 36 uchod, dadansoddiad Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â'r LCM gwreiddiol). Mae'n iawn dod i'r casgliad, felly, bod angen cydsyniad ar gyfer diwygiadau i rannau o'r Bil a ystyriwyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29 at ddibenion yr LCM gwreiddiol.

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol**

39. Mae'r Bil yn adeiladu ar y gwaith o amgylch Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) gychwynnol 2022, a gefnogir yn flaenorol gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

Bydd cynigion yn Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o gryptoasedau, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol i hwyluso ymosodiadau meddalwedd wystlo a gwyngalchu arian. Bydd y Bil yn diwygio pwerau yn POCA i alluogi ymchwilio, atafaelu ac adfer cryptoasedau yn well mewn achosion atafaelu troseddol ac adfer sifil.

40. Mae trafodaethau paratoadol gyda Llywodraeth y DU, ar lefel Weinidogol a swyddogol, a'r dadansoddi dilynol yn dangos bod y darpariaethau datganoledig dan sylw yn rhai technegol ac nad ydynt yn ddadleuol, ac felly mae'n briodol defnyddio'r Bil i wneud y ddarpariaeth hon yn hytrach na defnyddio Bil y Senedd.

41. Mae'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn ymwneud â meysydd polisi ehangach a gedwir yn ôl. O ran cydsyniad Llywodraeth Cymru, mae hyn

yn bennaf yn ymwneud â'r pwerau i atafaelu cryptoasedau yn gyflym ac yn haws, sef y prif gyfrwng a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd wystlo sy'n cydfynd â'n polisïau seiberddiogelwch.

42. Byddai gwneud y darpariaethau hyn yn fanteisiol am resymau cyffredin i sicrhau bod Economi Cymru yn cefnogi mesurau'n gadarn ac yn amgylchedd annymunol ar gyfer gwyngalchu arian, seiberdroseddu economaidd a gweithgarwch anghyfreithlon cysylltiedig arall.

43. Rydym wedi dangos i Dŷ'r Cwmnïau yn glir ein bod o blaid derbyn adnoddau priodol i weithredu'r newidiadau o amgylch ei gyfrifoldebau cynyddol o ganlyniad i weithredu'r Bil.

### **Goblygiadau ariannol**

44. Bydd y Bil yn annog rheolaeth fwy llym o'r dull o gofrestru cwmnïau a phrosesau cysylltiedig yn ogystal â mwy o reoleiddio ym meysydd Cryptoasedau, (nad oeddent wedi'u rheoleiddio o'r blaen) a Gwyngalchu Arian.

45. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi ar y cam hwn. Caiff hyn ei fonitro wrth symud ymlaen gydag unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu cyflwyno at sylw'r Senedd, fel y bo'n briodol.

### **Casgliadau**

46. Yn ein barn ni, mae'n briodol delio gyda'r darpariaethau hyn yn y Bil. Mae'r Bil yn adeiladu ar fesurau sy'n bodoli eisoes gan Lywodraeth y DU, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Wcráin a phobl Wcráin. Rydym hefyd yn cefnogi safbwynt y Bil wrth ymateb i weithgarwch anghyfreithlon ynghylch y meysydd gwyngalchu arian, Cryptoasedau a newidiadau i reoliadau Tŷ'r Cwmnïau.

47. Rydym felly'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydysyniad.

**Vaughan Gething AS**  
**Gweinidog yr Economi**

**Mick Antoniw AS**  
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

**3 Ionawr 2023**